

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 3ydd o HYDREF 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.30 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair), Delyth Thomas, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Linda Williams, Meic Bowen, Tracey James, Caroline Williams, y Cyngorwr Sir Meinir James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams, Alan Lewis, Geraint Rosser.

2885 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Dymunwyd gwellhad buan i Judith, merch Glyndwr ar ôl ei thostrwydd sydyn.

2886 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 05/09/2022 fel rhai cywir.

2887 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 - Llwybr Treftadaeth - Derbyniwyd ymateb oddiwrth Phil Wait. Bydd y mater yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Cyllid nesaf.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2873 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2888 Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cyngorwyr Heddwyn Jones, Meic Bowen a Delyth Thomas yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2889 Nasareth Pontiets - .Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Heddwyn, Meic a Delyth yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cyngorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2890 Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2891 Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Cyngorwr Tracey James yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2892 Cylch Meithrin Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Tracey yn ail ymuno a'r cyfarfod.

- 2893** 1st Pontyates Guides – Carden yn diolch am y rhodd.
- 2894** 1st Pontyates Rainbows – Carden yn diolch am y rhodd.
- 2895** 1st Pontyates Brownies – Carden yn diolch am y rhodd.
- 2896** Cerebral Palsy – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 2897** Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Ceisiadau Cynllunio

Dim Ceisiadau Cynllunio

.Gwaharddiad y Cyhoedd

2898 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2899 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Medi. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Cynghorwyr Linda Williams a Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2900 Parc Pontiets - Cafwyd adroddiad cynhwysfawr o'r cyfarfod a gafwyd gyda chynrychiolaeth o Bwyllgor Gwella Parc Pontiets. Wedi trafodaeth llwyr a chliir penderfynwyd ein bod yn cyflwyno rhodd o £10000 er mwyn sicrhau gwelliannau yn y Parc a bod y mater i'w drafod ymhellach yn y Pwyllgor Cyllid pan benderfynir ar Gyllideb 2023 -2024.

Linda a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2901 Clwb Rygbi Pontiets – Ramp i'r Anabl – Wedi trafodaeth penderfynwyd ein bod yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gost y ramp.

2902 ZOOM – Penderfynwyd ein bod yn cadw ein cyfraniad at cyflesterau ZOOM am y flwyddyn nesaf.

Cyfarfod nesaf:- 7fed o Dachwedd 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....